




SUT ALLWN NI CYNYYDDU CYFLAWNIAD Y
MEINI PRAWF LLWYDDIANT GYDA 'SEIBIAU
SYNIAD'?

YR ATHRO YMHO LGAR

Cyflwyniad

Prif ffocws yr ymchwil hwn oedd archwilio a yw'n bosib cynyddu cyflawniad y meini prawf llwyddiant, trwy eu hailymweld a 'seibiau syniad'. 'Seibiau Syniad' yw'r strategaeth asesu ar gyfer dysgu a ddefnyddiwyd gan athrawon i adolygu gwybodaeth allweddol ac i wirio dealltwriaeth y dysgwyr yn ffurfiannol. Defnyddiwyd hefyd i gadw rheolaeth ar ymddygiad y dosbarth yn gyffredin (Paige, Lambert a Geeson, 2017).

Daeth y pwnc o ddiddordeb i mi yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol wrth i mi arsylwi nad yw disgyblion yn aml yn cyfeirio'n ôl at y meini prawf llwyddiant yn ystod eu gwaith. O ganlyniad, yr oeddwn yn awyddus i ddarganfod a ydynt yn ffordd o ganiatáu i ddisgyblion ymateb ar unwaith i'w waith ac i hunanasesu yn erbyn y meini prawf llwyddiant, neu a yw'n strategaeth aflonyddgar.

Cyd – destun yr ymchwil

Cynhaliwyd yr astudiaeth mewn tair ysgol drefol yn Ne Cymru. Cymerodd 20 o ddisgyblion blwyddyn 5 a oedd yn 10 oed rhan yn yr ymchwil o ysgol A ac yr oedd gymysgedd o ddisgyblion flwyddyn tri a phedwar gyda 29 o ddisgyblion rhwng 7 a 9 oed yn ysgol B. Yn ogystal, cynhaliwyd yr ymchwil mewn dosbarth pur blwyddyn 4 yn ysgol C gyda 28 o ddisgyblion rhwng 8 a 9 oed ar y gofrestr.

Mae'r astudiaeth hon yn archwilio i ba ddylanwad y mae seibiau syniad yn cael ar ymrwymiad disgyblion i feini prawf llwyddiant y wers ac i archwilio os ydynt yn cael effaith ar gyflawniad gwaith y disgyblion. Dewiswyd y pwnc ymchwil hwn gan ei fod yn faes o ddiddordeb i'r ymchwilwyr ac fel ffordd i wella ein haddysgeg ein hunain ar gyfer y dyfodol.

Cyfranogwyr

Yr oedd y cyfranogwyr yn ddisgyblion o dair ysgol drefol a leolwyd yn ardal De Cymru.

Derbyniodd pob disgybl a gymerodd ran yn yr ymchwil caniatâd rhiant (gweler Atodiad 1) a rhoddodd pob cyfranogwr cydsyniad ar lafar ar ddiwrnod yr astudiaethau. Buodd 20 o ddisgyblion yn bresennol yn yr astudiaeth o ddosbarth blwyddyn 5 yn ysgol A a chymerodd 29 o ddisgyblion o ddosbarth blwyddyn tri a phedwar cymysg (17 bachgen; 12 o ferched) ran o ysgol B. Yn ogystal, roedd 28 disgybl yn bresennol o ddosbarth blwyddyn pedwar pur yn ysgol C ar ddiwrnod yr ymchwil.

Dewiswyd tri phlentyn ffocws o bob ysgol i'w harsylwi yn ystod y wers gan ddefnyddio'r dull samplo pwrpasol. Noda Spradley (1979) bod samplo pwrpasol yn caniatáu i ymchwilwyr ddewis cyfranogwyr sy'n gallu cyfleu profiadau a barnau mewn modd mynegiannol a myfyriol. At hynny, mae'n caniatáu i ymchwilwyr nodi a dethol unigolion neu grwpiau o unigolion sydd yn arbennig o wybodus am neu sydd â phrofiad o ffenomen o ddiddordeb. Dewiswyd y plant o wahanol grwpiau cyrhaeddiad er mwyn sicrhau amrywiad yn yr astudiaeth.

Yn ogystal, dewiswyd dau blentyn ychwanegol i gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp ffocws yn dilyn y wers a dewiswyd y rhain ar hap. Adnabyddir pwysigrwydd ymddwyn mewn modd proffesiynol a wnaethom sicrhau i beidio gweithredu mewn modd amhroffesiynol trwy lynu at ganllawiau BERA (2018) a chanllawiau moesegol y brifysgol trwy gydol yr ymchwil. Fe wnaethom sicrhau bod myfyriwr ychwanegol yn bresennol drwy gydol yr ymchwil er mwyn sicrhau diogelwch personol cyflawn. At hyn, fe wnaethom yn siŵr bod y cyfranogwyr yn ymwybodol bod ganddynt yr hawl i dynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg heb roi eglurhad os oeddent yn teimlo bod angen iddynt wneud hynny.

Trosolwg byr o lenyddiaeth berthnasol

Yn dilyn ymchwil manwl ynghylch 'seibiau syniad', daeth yn amlwg mai ychydig iawn o ymchwil ar gael sydd yn seiliedig ar y pwnc ymchwil. Canolbwyntir mwyafrif o'r ymchwil bresennol ar ddiffinio'r strategaeth yn hytrach na ddadansoddi'r manteision a chyfyngiadau o weithredu'r strategaeth o fewn y dosbarth. Sonnir Gibbons (2017) mai strategaeth gyffredin a ddefnyddir gan athrawon yn y system gynradd yw seibiau syniad sy'n caniatáu athrawon i dorri ar draws gweithgaredd dysgu cydweithredol ar lefel grŵp er mwyn rhoi sylw i'r dosbarth cyfan neu geisio ymgysylltu â'r dosbarth cyfan wrth drafod. Yn debyg, nodir Paige, Lambert a Geeson (2017) bod seibiau syniad yn rhoi'r cyfle i'r athro a'r disgyblion ymateb ar unwaith i gynnydd mewn dysgu ac maent yn darparu'r cyfle i'r disgyblion asesu eu cyfoedion a'u hunain yn erbyn y meini prawf llwyddiant yn ystod y wers. Cefnogodd y darlenniad hwn ein cwestiwn ymchwil a'n rhagfarnau. Cafodd yr ymchwil ei threialu gan un o'r ymchwilwyr a oedd yn rhan o'r ymchwil hon a chynigodd yr ymchwiler ei bod seibiau syniad yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion gan ei fod yn rhoi cyfle i asesu yn erbyn y meini prawf llwyddiant yn syth ac yn galluogi dysgwyr i wella'u gwaith os oes angen. Yn dilyn hyn, dadlau Spendlove (2011) bod seibiau syniad yn effeithiol iawn oherwydd maent yn rhoi cyfle i fonitro, asesu ac ail-gyfeiriadu yn ystod y wers gan y gallai gadael hyn tan ddiwedd y wers fod yn rhy hwyr. Fodd bynnag, dadlau Beadle bod seibiau syniad yn ddibwrpas, yn profi dim ac yn llai effeithiol na seibiau ar ddiwedd y wers. Yn ogystal, cred Evers, Brock a Baker (2017) y gall seibiau syniad fod yn ddibwrpas os cânt eu gordddefnyddio a byddant yn tarfu ar lif y wers sy'n golygu ni fydd digon o amser gan y disgyblion i ddysgu unrhyw beth. Yn yr un modd, maent yn dadlau'r mai athrawon yn aml yn cynnal seibiau syniad fel gweithgareddau artiffisial, sydd wedi'u cynllunio i ddangos i arsylwr yn unig fod cynnydd yn cael ei wneud bob 10 munud. Mae gordddefnyddio seibiau syniad yn golygu nad oes gan y disgyblion ddigon o amser i brosesu'r wybodaeth neu i ddatblygu eu dealltwriaeth

cyn iddynt ei hadolygu. Mae cychwyn seibiau syniad yn tarfu 'n gynhenid ar drafodaethau grŵp neu bartner (Gibbons, 2017). Er hyn, dywed Evers, Brock a Baker (2017) gall seibiau syniad sydd wedi 'u cynllunio 'n dda helpu 'r cyfnodau pontio mewn gwersi o un gweithgaredd i 'r llall, drwy weithredu fel pont, lle gall dysgwyr weld sut mae 'r gweithgaredd blaenorol yn cysylltu â 'r un nesaf. Gallant hefyd gyflwyno myfyrio go iawn, gan ganiatáu i fyfyrwyr gyfnerthu 'r hyn a ddysgir cyn y gofynnir iddynt ymestyn neu ddyfnhau 'r dysgu hwnnw. Ar ôl ystyried yr ymchwil, roedd yn hanfodol ein bod ni fel ymchwilwyr wedi cynllunio 'r nifer cywir o seibiau syniad drwy gydol y wers a 'u defnyddio er mwyn asesu gwaith y disgyblion yn erbyn y meini prawf llwyddiant yn unig.

Methodoleg

Cefnogwyd ein hymchwil gan fodel astudiaeth gwersi (AG) Pete Dudley (2011). Nodir Dudley (2011) fod astudiaethau ac arsylwadau yn ddulliau effeithiol o gasglu data a chyflawni ymchwil. Creda fod astudio gwersi a disgyblion o fewn gwersi yn cynnig cyfle i athrawon gwella ar ei addysgu a chynnig cyfle i asesu dysgu'r disgyblion. Ddatblygwyd AG yn wreiddiol fel ffordd o fireinio ymarfer athrawon ond maent wedi dod yn boblogaidd yn fyd-eang fel arf hanfodol er mwyn dyfnhau a datblygu gwybodaeth addysgeg a phwnc ymarferwyr. Fodd bynnag, dengys canfyddiadau o astudiaeth a chynhaliwyd mewn 181 ysgol ledled y DU a ariennir gan yr EEF nad oes unrhyw dystiolaeth i ddangos effaith gadarnhaol glir y mae AG yn cael ar gyraeddiad disgyblion. Mae'n hollbwysig, felly, nodi, yng nghwmpas ein hymchwil, mai dim ond i lunio amlinelliaid cychwynnol o'n nod i wella ymrwymiad disgyblion i'r meini prawf llwyddiant trwy ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu y gall y model AG cyfrannu ato.

Defnyddir astudiaeth gwers yn yr ymchwil hon, yn gyntaf i arsylwi ar sut mae'r disgyblion yn ymateb i 'seibiau syniad', a hefyd i ymchwilio os yw seibiau yn ystod y wers cael dylanwad ar sut mae'r plant yn cyflawni gwaith.

Yn ychwanegol, er mwyn ymchwilio a chofnodi data, defnyddiwyd taflenni gwirio (gweler Atodiad 2). Yn ôl Burns (2000) mae taflenni gwirio yn ffordd effeithiol o gofnodi data mewn ffordd strwythuredig, gan ei fod wedi ei chategoreiddio. Defnyddiwyd taflenni gwirio i sicrhau bod unrhyw wybodaeth allweddol yn cael ei gofnodi'n effeithiol, ond hefyd i sicrhau dim ond gwybodaeth angenrheidiol i'r ymchwil sydd yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nodi, y gallai rhyw ddigwyddiad sylweddol wedi'i cholli gan ddim ond un arsylwr oedd yn y dosbarth. Seiliwyd ein casgliad data yn bennaf ar ymateb goddrychol yr arsylwr ac ar agweddau goddrychol y disgyblion ffocws. Roedd y defnydd o daflenni gwirio yn

effeithiol yn yr achos hwn, gan nad oedd breifatrwydd y plant wedi'u hamharu ar gan nad oedd unrhyw ddata dianghenraid wedi'u cadw.

Paratoasom ffurflen arsylwi (gweler Atodiad 3) i amlygu'r manau priodol a bwriedir eu harsylwi, gan gynnwys gwrando gweithredol, cyswllt llygaid, siarad aflonyddgar, ymrwymiad i'r dasg ac aflonyddu (corfforol). Fe wnaethom raddio'r disgyblion yn erbyn graddfa lle fydd 1 yn cyfateb i = isel iawn, 2 = isel, 3 = canolig, 4 = uchel a 5 = uchel iawn. Yn ogystal, penderfynir cynnal cyfweiliad grŵp ffocws yn y tair ysgol lle bu'r drafodaeth wedi ei recordio a nodiadau maes wedi ei chymryd ar bapur. Penderfynir ar y dulliau yma ar gyfer y cyfweiliadau gan ei fod yn cynnig cyfle i gymryd nodiadau ar unrhyw ddigwyddiad pwysig a chodir ynghyd a'r maes ymchwil. At hynny, roedd y penderfyniad i recordio yn effeithiol gan fod yn cynnig cyfle i'r ymchwilwyr ail ymweld â'r data a recordiwyd i sicrhau dilysrwydd y wybodaeth. Yn ystod y grŵp ffocws, defnyddion gwestiynau penagored (gweler Atodiad 4) i ddatblygu safbwynt y disgyblion. Roedd y defnydd o gwestiynau penagored wedi cynyddu dilysrwydd yr adlewyrchiad drwy chwalu unrhyw ragfarnau roeddem ni, fel ymchwilwyr, yn ei weld yn bwysig i'r astudiaeth. O ganlyniad, nid oedd y data a gasglwyd wedi ein hymatal rhag gwneud arsylwadau ehangach sy'n berthnasol i'n briff ymchwil. Gan ddefnyddio canfyddiadau'r dysgwyr yn ogystal â'r arsylwadau, llwyddwyd i gynyddu'r potensial i ddatgelu data newydd. Cyfunwn a chymharwn y setiau data unigol er mwyn eu dadansoddi a chanfod argymhellion fydd yn datblygu ein harfer fel athrawon yn y dyfodol.

Yn dilyn yr ymchwil, daeth yn amlwg bod cyfyngiadau i ddefnyddio sampl fach o gyfranogwyr, ond yng nghwmpas yr astudiaeth hon, tybiwyd oherwydd natur ansoddol ein hymchwil, mai 'r dull hwn oedd yn rhoi 'r trosolwg mwyaf dibynadwy ar farnau a theimladau 'r dysgwyr yn gyffredinol.

Moeseg

Adnabyddir pwysigrwydd ymddwyn mewn modd proffesiynol a gwnaethom sicrhau i beidio gweithredu mewn modd amhroffesiynol trwy lynu at ganllawiau BERA a chanllawiau moesegol y brifysgol trwy gydol yr ymchwil. Cynhaliwyd yr ymchwil yn onest a rheolir y risg o ran y cyfranogwyr a'r ymchwilwyr fel bod dim perygl i'r brifysgol neu'r perthynas rhwng y brifysgol a'r ysgolion partneriaeth.

Yn ogystal, adnabyddir pwysigrwydd sicrhau cyfrinachedd llwyr a chydymffurfir â chanllaw BERA (2018) drwy ymatal rhag rhannu unrhyw ddata a gasglwyd tu allan i'r brifysgol.

Gwnaethom sicrhau bod myfyriwr ychwanegol yn bresennol drwy gydol yr ymchwil er mwyn sicrhau diogelwch personol cyflawn. At hyn, fel ymchwilwyr, fe wnaethom sicrhau osgoi adeiladu perthynas bersonol a'r cyfranogwyr er mwyn osgoi ei chyhuddo o ragfarn. Mi fydd y data yn cael ei defnyddio at ddiben yr ymchwil hon yn unig. Storiwyd y data a gasglwyd ar yriant wedi'i warchod gan gyfrinair sydd ond yn hygyrch i'r ymchwilwyr ac i unrhyw unigolion sy'n ymwneud â'r astudiaeth sy'n dymuno gweld y wybodaeth. Ymhellach, cyfeirir at y cyfranogwyr fel Plentyn 1, 2 a 3 ac mi fydd yr ysgolion dan sylw yn aros yn gwbl ddiennw er mwyn sicrhau anhysbysrwydd llwyr. Ni fydd modd tracio unrhyw wybodaeth a ddefnyddir yn ôl i unrhyw gyfranogwr neu ysgol. Caiff y data ei storio ar bapur ac yn electronig ar yriant a ddiogelir gan gyfrinair. Mi fydd y data ysgrifenedig yn cael eu dinistrio ar ôl un wythnos a cheir data electronig ei ddinistrio ar 31 Awst 2019.

Astudiaeth Gwers 1 (Ysgol A)

Pwnc astudiaeth gwers 1 oedd Saesneg a nod y wers oedd ysgrifennu 'Stormbreaker'. Pwrpas eilaidd y dasg oedd asesu sut gall y plant ymdopi gyda heriau newydd. Mae'r 'twll prawf' yn rhoi cyfle i'r athro asesu 'grit' naturiol y plant a'i sgiliau dyfal barhau. Trwy gydol yr adran hon, cyfeirir at y disgyblion ffocws fel plentyn 1 (gallu isel), plentyn 2 (gallu canolig) a phlentyn 3 (gallu uchel). Un meini prawf llwyddiant oedd ar gael ar gyfer pob disgybl a chafwyd ei hail-ymweld trwy gydol y wers. Roedd deilliannau clir o ran sgiliau meddwl y dysgwyr ac roeddent wedi sylweddoli erbyn diwedd y wers bod angen pwy o bwyslais ar gynllunio yn fwy effeithlon o fewn cyfyngiadau amser. Yn dilyn yr astudiaeth wers, os edrychid nôl ar gyflawniad a safon gwaith y cyfranogwyr yn ystod y wers, gwelir bod y canfyddiadau yn amrywio o ddisgybl i ddisgybl. Dangosodd plentyn 3 (gweler Atodiad 5) gwell dealltwriaeth o'r dasg na'r cyfranogwyr eraill ac roedd wedi llwyddo i gyflawnai'r meni prawf llwyddiant erbyn diwedd y wers, fodd bynnag, ymatebodd dysgwyr gallu uchaf y dosbarth yn negyddol i'r seibiau syniad ar y cyfan yn wahanol i ddysgwyr gallu isel y dosbarth a atebodd yn gadarnhaol i'r seibiau. Trafodwyd hyn a'r athro dosbarth ac esboniodd bod lefel ymyrraeth y dysgwyr yn uwch na'r arfer ac o ganlyniad, roedd rhaid ymdrechu i reoli eu hymddygiad yn fwy. At hyn, nid oedd rhai dysgwyr gallu uchel wedi ymgysylltu a'r dasg. Nid oeddent yn fodlon dyfal barhau gan fod y dasg yn eu herio mewn ffordd newydd. Nododd un disgybl targed a oedd yn rhan o'r grŵp ffocws bod y seibiau syniad yn teimlo fel bod yr athro dosbarth yn ail-adrodd ei hunain ac yn achosi iddo golli diddordeb ;

A1: He's repeating himself is he?

P9: [chwerthin] ... ie.

A1: Is that why you just zoned out a bit?

Cefnogir hyn gan Gibbons (2013) sy 'n dadlau y gall seibiau syniad tarfu ar drafodaethau grŵp neu bartner a gwneud iddynt golli diddordeb,

Dangosodd y dysgwyr gallu uchel 'meddylfryd sefydlog' (Dweck, 2012) wrth ymdopi gyda gofyniad y dasg. Nid oeddent mor fodlon arbrofi gyda syniadau newydd wrth ysgrifennu, ac roedd rhai wedi dychwelyd atebion aflonyddgar ar ddiwedd y wers. Teimlwyd hefyd bod y strategaeth o seibiau syniad yn wrthwynebol a'r ymdrech i greu 'profiad optimaidd' (Csikszentmihalyi, 1990).

Yn dilyn y wers, daethom i 'r casgliad bod seibiau syniad, a chynlluniad gwersi o'u hamgylch, yn ymrannol i ddisgyblion o wahanol alluoedd. I rai sydd angen yr ymyrraeth, gall y strategaeth bod yn brofiad cadarnhaol wrth dynnu ffocws y plant hynny nôl i'r meini prawf llwyddiant fydd yn ei dro yn arwain at gyflawniad y nod. Fodd bynnag, ar gyfer gwers arsylwol / ymchwiliol, credaf y byddai'n gwell i beidio pwysleisio datblygiad sgiliau meddwl ar y cyd gyda gofyniad i blant cwblhau meini prawf llwyddiant. Mae'r ddwy strategaeth yma yn arwain at ddryswch a rhwystredigaeth y plant fel y gwelwyd yn ystod yr astudiaeth wers.

Astudiaeth Gwers 2 (Ysgol B)

Pwnc astudiaeth gwers 2 oedd mathemateg a nod y wers oedd cyfrifo perimedr siapiau amrywiol. Trwy gydol yr adran hon, cyfeiriaf at y disgyblion ffocws fel plentyn 1 (gallu uchel), plentyn 2 (gallu canolig) a phlentyn 3 (gallu isel). Un meini prawf llwyddiant oedd ar gael ar gyfer pob disgybl, fodd bynnag, roedd y taflenni gwaith wedi'u gwahaniaethu.

Llwyddodd plentyn 1 i gyflawni ei nod dysgu a llwyddodd plentyn 2 i gwblhau'r rhan fwyaf o'r dasg yn llwyddiannus, fodd bynnag, nid oedd plentyn 3 wedi cwblhau'r dasg yn gywir.

Roedd y gwaith a gynhyrchwyd yn adlewyrchu'r sylwadau a gofnodwyd.

Yn dilyn yr astudiaeth wers, os edrychid nôl ar gyflawniad a safon gwaith y cyfranogwyr yn ystod y wers, gwelir bod y canfyddiadau yn amrywio o ddisgybl i ddisgybl. Dangosodd plentyn 1 gwell dealltwriaeth o'r dasg na'r cyfranogwyr eraill ac roedd wedi llwyddo i gyflawni'r meni prawf llwyddiant erbyn diwedd y wers, fodd bynnag, nid oedd y disgybl yn bresennol yn y dosbarth yn ystod un saib syniad ac nid oedd yn gwrandao yn ystod y ddwy arall. O ganlyniad, ni allaf lunio barn yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr arsylwad. Roedd Plentyn 1 yn dueddol o gyd-weithio gyda'i phartner ac roedd yn awyddus i ofyn i weddill y grŵp am gymorth yn hytrach na'r athrawes dosbarth. Yr oedd yn amlwg i weld nad oedd y seibiau syniad yn ddefnyddiol i blentyn 1, yn lle, yr oedd yn ffordd i'w atal rhag gweithio am ychydig o eiliadau pan alwodd yr athrawes dosbarth am dawelwch ar gyfer y saib syniad.

Yn debyg, nid oedd plentyn 2 wedi manteisio'n llawn ar y seibiau syniad ac roedd yn dueddol o wrando am ddwy funud ac yna parhau i weithio. Roedd y disgybl yma yn aflonydd iawn yn ystod y seibiau syniad ac yn aml yn siglo ar ei gadair yn hytrach na chymryd sylw ar yr athrawes dosbarth. Trafodir effaith seibiau syniad ar waith plentyn 2 yn ystod y wers ac fe ddywedwyd ei bod yn tueddu i wneud iddo golli trac ar ei waith. Fodd bynnag, sylwais ar welliant yn ei waith wrth i'r seibiau syniad mynd ymlaen ac roedd wedi llwyddo i gyflawni

un rhan o'r meini prawf llwyddiant yn gywir. Yn ogystal, roedd plentyn 2 yn ymatebol ar ddechrau'r seibiau syniad ac yn awyddus i gynnig ateb ond roedd yn amlwg i weld ei bod yn diflasu ar ôl ychydig o funudau.

Roedd yn anodd arsylwi ar blentyn 3 oherwydd fy lleoliad ar y bwrdd. Yn wahanol i blentyn 1 a 2, roedd yn ymddangos bod plentyn 3 yn gwrando yn ystod y seibiau syniad ac yn ymatebol i'r athrawes. Fodd bynnag, ar ôl edrych dros waith plentyn 3, nid oedd y disgybl wedi llwyddo i adnabod sut i gyfrifo perimedr. Yn debyg, ar ôl yr ail saib syniad roedd plentyn 3 wedi diflasu ac wedi parhau i weithio ar ôl ddwy funud o wrando ar yr athrawes. Er i mi lwyddo casglu gwybodaeth ddefnyddiol ar y tri disgybl targed, er mwyn gwella dilysrwydd dull o arsylwi y tro nesaf, byddai 'n ddefnyddiol cael mwy nag un arsylwr.

Astudiaeth Gwers 3 (Ysgol C)

Pwnc astudiaeth gwers 3 oedd addysg grefyddol a nod y wers oedd creu PwyntPwer ar brif nodweddion Eglwys (gweler Atodiad 6). Trwy gydol yr adran hon, cyfeirïaf at y disgyblion ffocws fel plentyn 1 (gallu uchel), plentyn 2 (gallu canolig) a phlentyn 3 (gallu isel).

Roedd gofyn i'r disgyblion greu 'GoogleSlides' yn seiliedig ar nodweddion Eglwys. Roedd y plant eisoes yn ymwybodol o'r nodweddion ymlaen llaw gan fod hon yn wers a oedd yn parhau ac felly yn ystod y cyflwyniad roedd yr athrawes dosbarth wedi ail-ymweld yn fras â phrif nodweddion Eglwys gan ailadrodd y meini prawf llwyddiant i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gofynion. Yn ogystal, dangoswyd sut i gynnwys blwch testun ar 'GoogleSlides'. Yn ystod y wers bu'r disgyblion yn cydweithio mewn paruau ar un ddogfen i greu'r PwyntPwer. Roedd yn ymddangos bod pob disgybl ar dasg trwy gydol y wers ac roedd y plant yn ymatebol iawn yn ystod y cyflwyniad. Gweithiodd y disgyblion yn effeithiol gyda'i gilydd ac roeddent yn gallu cyfeirio'n ôl at y meini prawf llwyddiant i sicrhau eu bod wedi cynnwys popeth.

Yn dilyn yr astudiaeth wers, os edrychid nôl ar gyflawniad a safon gwaith y cyfranogwyr yn ystod y wers, gwelir bod y canfyddiadau yn amrywio o ddisgybl i ddisgybl. Llwyddodd Plentyn 1 i gyflawni'r meini prawf llwyddiant erbyn y trydydd saib syniad ac roedd yn ymddangos yn hyderus iawn ac yn ymwybodol o beth oedd angen gwneud er mwyn cyrraedd nod y wers. Yn ogystal, llwyddodd plentyn 2 i gyflawni 3 allan o 5 adran o'r meini prawf llwyddiant erbyn yr ail saib syniad ac roedd wedi cyrraedd nod y wers erbyn diwedd y wers. Yn olaf, nid oes modd rhoi sylw ar blentyn 3 gan nad oes unrhyw wybodaeth yn seiliedig ar gyflawniad y disgybl ar gael. Yn dilyn trafodaeth gydag arsylwyr y wers hon, deallaf nad oedd y seibiau syniad yn amharu neu o fudd i'r dysgwyr. Roeddent i gyd yn ymwybodol ar ddechrau'r wers o beth oedd yn ddisgwyliedig er mwyn cyrraedd nod y wers a chyflawni'r

meini prawf llwyddiant. Yn ogystal, roedd taflenni meni prawf llwyddiant ar gael ar bob bwrdd ac felly nid oedd angen y seibiau syniad arnyn nhw.

Yn ystod y drafodaeth grŵp ffocws, roedd pob disgybl wedi tynnu sylw at fanteision seibiau syniad ac wedi nodi ei bod nhw'n ffordd o atgoffa'r disgyblion o beth arall sydd i wneud neu sut i wella'r gwaith;

A2: Beth oeddech hi'n meddwl am y saib syniad:

P1: Achos hi wedi dweud wrthym ni i stopio ac edrych ar y success criteria, roedd e hefyd wedi gwneud i bawb i gofio beth i wneud.

P2: Roedd wedi helpu ni i wneud pethau i wella, achos roedd popeth yna i ti i ddarllen a gwneud e i wella'r gwaith.

P3: Rydw i'n meddwl mai'n helpu fi oherwydd pan roedd fi a [enw] yn gweithio, roedden ni'n edrych ar y meini prawf llwyddiant ac wedyn roedden ni yn sylweddoli doedden ni ddim wedi gwneud animeiddio ar un o'r sleids, felly roedd angen ni neud e ar ôl.

P4: Dwi'n credu roedd e'n helpu fi i gofio beth oedd fi angen ei gwneud felly roedden i wedi mynd nôl i bethau a sortio nhw mas

P5: Oedd achos mae pawb wedi stopio achos mae hi'n trio helpu ni gyda'r wers and mae angen i checiwch e, ni'n gallu adio mwy mewn e a gwneud i chi cofio fe

-Pan mae wedi tynnu sylw mae wedi dweud, "remember to add some more" like "remember to make it better, make the other ones your forgot; put it on quickly before it's finished".

Ar ôl dadansoddi'r data a gasglwyd gan y grŵp ffocws, mae'n amlwg bod y disgyblion yn teimlo bod y seibiau yn eu cynorthwyo ac o ddefnydd iddynt yn ystod y wers er doedden nhw ddim wedi ymddangos yn ddefnyddiol yn ystod y wers arsylwadol.

Canfyddiadau'r ymchwil

Er bod canfyddiadau 'r astudiaeth yn ddiddorol ac y byddant yn llywio arfer yr ymchwilwyr yn y dyfodol, rhaid cydnabod bod rhai cyfyngiadau i 'r astudiaeth hon.

Yn dilyn yr astudiaeth, mae ein canfyddiadau yn debyg i 'r llenyddiaeth a archwilir a 'n rhagfarnau fel ymchwilwyr. Yr oedd y rhan fwyaf o 'r ymchwil a archwiliwyd yn dadlau eu bod seibiau syniad yn ddibwrpas ac yn arafu 'r broses dysgu. Fodd bynnag, nid oedd hyn mor amlwg yn y gwersi ymchwiliol. Er bod y seibiau yn ddiwerth i rai disgyblion, roedd yn ymddangos bod y disgyblion yn gwerthfawrogi cael eu hatgoffa o sut i gyrraedd nod y wers a sut i gyflawni'r meini prawf llwyddiant yn aml. Er hyn, nid oedd y seibiau wedi ymddangos yn effeithiol iawn yn ystod y gwersi. Teimlaf fel fy mod yn torri ar draws y dysgu yn ystod y seibiau ac ar adegau roedd yn ymddangos bod y dysgwyr yn awyddus i barhau gweithio yn hytrach na gwrando. Nid oedd y seibiau wedi cael effaith sylweddol ar waith y disgyblion er roeddent wedi effeithio ar ymddygiad. Nid oedd hyn yn rhywbeth roedden ni fel ymchwilwyr wedi trafod cyn y gwersi ac roedd yn ddiddorol gweld sut oedd y plant gallu uchel yn bihafio yn ystod y seibiau.

Casgliad ac Argymhellion

Ar ôl ystyried yr ymchwil, credaf fod y dulliau casglu data a ddefnyddiwyd yn briodol ar gyfer yr astudiaeth ymchwil hon, fodd bynnag, gellid gwella rhannau o'r ymchwil ar gyfer y dyfodol. Roedd y defnydd o daflenni wirio yn effeithiol iawn oherwydd roeddent wedi ein galluogi i gasglu'r data yr oedd eu hangen a rhoi ffocws i ni fel ymchwilwyr ar gyfer ein hymholiadau. Fodd bynnag, fel pob dull o arsylwi, efallai y collwyd rhywfaint o ddigwyddiad sylweddol, felly, er mwyn gwella dilysrwydd dull o arsylwi y tro nesaf, byddai'n ddefnyddiol cael mwy nag un arsylwr. At hyn, roedd cynnal grŵp ffocws eto'n effeithiol gan ei fod yn caniatáu i'r disgyblion leisio'u barn tuag at fater sy'n effeithio arnynt a chodi unrhyw bryderon gan wybod bod y wybodaeth yn anhysbys ac yn gyfrinachol. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru (2016) 'Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc' sy'n nodi bod gan blant yr hawl i leisio'u barn ac iddynt gael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Roedd defnyddio dull grŵp ffocws y ffordd fwyaf priodol o gyfweld y cyfranogwyr er mwyn casglu eu syniadau a'u barn mewn amgylchedd priodol.

At hyn, ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, er mwyn sicrhau dibynadwyedd llwyr yn gofnodiad yr arsylwadau, byddai recordio'r gwersi yn effeithiol iawn i alluogi'r ymchwilwyr gwirio bod y nodiadau yn gywir ac i ail-ymweld unrhyw ddigwyddiadau allweddol cafodd ei golli. Yn ogystal, byddwn yn cyfweld a'r disgyblion mewn grwpiau llai neu yn unigol gan fy mod yn teimlo nad oedd rhai disgyblion yn rhannu eu syniadau a'u barn eu hunain, yn hytrach roeddent yn cytuno ag aelodau eraill y grŵp ffocws.

Pe bawn i'n ail-ddysgu'r wers byddaf yn sicrhau i wasgaru'r seibiau syniad gan fy mod yn teimlo fy mod yn eu rhuthro ar ddechrau'r wers. At hyn, byddwn yn cynllunio gwers ysgrifenedig lle byddwn yn gallu cynnwys gofynion mwy penodol yn y meini prawf llwyddiant. I gloi, teimlaf fod yr ymchwil yn llwyddiant, fodd bynnag, pe baem wedi casglu rhagor o ddata y byddai'r canfyddiadau'n sylweddol gwell. Yn ogystal, credaf hefyd y

byddai ' n ddiddorol cynnal dwy wers unfath, un heb seibiau ac yn defnyddio seibiau syniad
er mwyn cymharu gwaith y dysgwyr.

Cyfeiriadau

BERA (2018) *Ethical Guidelines For Educational Research*. Ar gael:

https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2018/06/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research_4thEdn_2018.pdf?noredirect=1 (Agorwyd ar: 24ain Mai 2019).

Burns, R. (2000) *Introduction to Research Methods*. London: Sage.

Csikszentmihalyi, M. (1990) 'Flow: The Psychology of Optimal Experience', *Journal of Leisure Research*, 24:1, doi: [10.1080/00222216.1992.11969876](https://doi.org/10.1080/00222216.1992.11969876)

Dudley, P. (2011) *Lesson Study: a handbook*. Ar gael: http://lessonstudy.co.uk/wp-content/uploads/2012/03/Lesson_Study_Handbook_-_011011-1.pdf (Agorwyd: 23ain o Ebrill 2019).

Dweck, C.S. (2012) *Mindset: How You Can Fulfil Your Potential*. London: Constable & Robinson.

Evers, G., Baker, T. a Brock, R. (2017) *Targeted Teaching: Strategies for Secondary Teaching*. Ar gael:

https://books.google.co.uk/books?id=PnQEDgAAQBAJ&pg=PA21&dq=mini+plenaries,+are+they+worth+it&hl=en&sa=X&ved=0ahUKEwi8_NXFIPPfAhUySxUIHan_CH8Q6AEINjAC#v=onepage&q&f=false (Agorwyd: 5ed o Fai 2019).

Joyce-Gibbons, A. (2017) 'Observe, interact and act: teachers' initiation of mini-plenaries to scaffold small-group collaboration', *Technology, pedagogy and education*, 26 (1), tud. 51-68.

Llywodraeth Cymru (2016) *Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc*. Ar gael: <http://www.childreninwales.org.uk/resource/participation-standards/> (Agorwyd: 10fed Ebrill 2019).

Paige, R., Lambert, S. a Geeson, R. (2017) *Building Skills for Effective Primary Teaching*. Ar gael: https://books.google.co.uk/books?id=ravDDgAAQBAJ&pg=PA84&dq=are+mini+plenaries+effective+in+the+primary+classroom&hl=en&sa=X&ved=0ahUKEwjD_MCFo_LfAhXjQhUIHe6EC_QQ6AEISDAF#v=onepage&q=mini%20plenaries&f=false (Agorwyd: 23ain Ebrill 2019).

Spendlove, D. (2011) *Putting Assessment for Learning Into Practice*. Ar gael: https://books.google.co.uk/books?id=76zDKWd31VQC&pg=PA84&dq=mini+plenaries,+are+they+worth+it&hl=en&sa=X&ved=0ahUKEwi8_NXFIPfAhUySxUIHan_CH8Q6AEIMDAB#v=onepage&q&f=false (Agorwyd: 10fed Mai 2019).

Spradley, J. (1979) *The ethnographic interview*. New York: Holt, Rinehart & Winston.

Atodiadau Atodiad 1



Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae ysgol eich plentyn yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Athrofa ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin ac Abertawe. Mae'r ysgol hon yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon.

Gofynnwyd i'r darpar-athro yn nosbarth eich plentyn gynllunio, addysgu a gwerthuso un wers fel y gall ef / hi ddatblygu strategaethau penodol i wella eu haddysgu eu hunain. Fel rhan o hyn, bydd darpar-athrawon yn arsylwi ar ymatebion y plant ac yn gofyn i rai disgyblion eu barn ar rannau o'r wers. Mae'r dasg wedi'i chynllunio i lywio ymarfer y myfyrwyr a chefnogi dysgu plant.

Byddai unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn parhau'n gyfrinachol drwy gydol y prosiect, a byddai'r ysgol a'r plant yn parhau i fod yn ddienw yn y gwaith a gynhrychir. Sicreir i'r wybodaeth a'r canlyniadau a gasglwyd fod yn unol â chanllawiau moesegol y Brifysgol. Os, ar unrhyw adeg, nid yw eich plentyn am rannu syniadau, ni fyddai'n ofynnol iddo/i wneud hynny.

Os ydych chi'n hapus i'ch plentyn gyfrannu at y prosiect, cwblhewch y ffurflen ganiatâd rhieni isod os gwelwch yn dda, a dychwelwch yn uniongyrchol i'r ysgol cyn gynted â phosib. Os oes gennych ddiddordeb yng nghlynyniad y prosiect hwn neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Swyddfa Bartneriaeth y Brifysgol - partnership@uwtsd.ac.uk.

Yn gywir,

Catherine Morgan
Cyd-lynnydd Modwl – Yr Athro Ymholgar

Fel Rhiant / Gwarcheidwad, rhoddaf ganiatâd / ni roddaf ganiatâd (dileu) i
(enw plentyn) gymryd rhan yn y prosiect hwn.

Llofnodwyd (Rhiant / Gwarcheidwad).

Dyddiad

Atodiad 2

Pit Stop 2

Agwedd	Plentyn 1	nodiadau	Plentyn 2	nodiadau	Plentyn 3	nodiadau
Meini prawf Uwyyddiant 1 ✓	✓		✓	affangddin - ysu i uned gwath	✓	
Meini prawf Uwyyddiant 2 ✓	✓		✓		✓	
Meini prawf Uwyyddiant 3 ✓	✓		✓		✓	

Atodiad 3

1 = isel iawn 2 = isel 3 = canolig 4 = uchel 5 = uchel iawn

Agwedd	Plentyn 1	nodiadau	Plentyn 2	nodiadau	Plentyn 3	nodiadau
Gwrandio gweithredol	(4)		(4)		(4)	
Cyswilt llygaid	(3)	anoddach iaddi o achos ei soffle ar y bwrdd.	(4)		(4)	
Siarad afonyddgar	(2)		(2)		(2)	
Ymrwymiad i'r dasg	(4)		(3)		(4)	In gynaig gyniadau'n nyddies with ateb mashynau, a thraed.
Afonyddu (corfforol)	(1)		(1)		(1)	

Cwestiynau Grŵp Ffocws

1. Beth ydych chi'n meddwl am y wers?
2. Beth oedd yn dda am y wers?
3. Beth gallen ni newid am y wers?
4. Beth ydych chi'n meddwl o'r seibiau syniad?
5. Ydy'r seibiau syniad yn effeithio ar eich gwaith?
6. Ydych chi'n meddwl bod y seibiau syniad yn gallu gwella eich gwaith?
Sut?
7. Beth yw eich barn am faint y seibiau mewn gwrs?
8. Beth ydych chi'n meddwl am nifer y seibiau?
9. Sut fydddech chi'n cymharu'r wers hon gyda gwrs heb seibiau?
10. Os ydw i'n mynd yn ôl i ddysgu'r wers yma i fy nosbarth i, beth fydddech chi'n newid neu gadw'r un peth?

Wednesday 20th of February

Mission Objective: Write a summary

- Write a summary of 'Stormbreaker' (the book) So for in 200 words, 50 words then 5 words.

Funeral Voices

In chapter one we were introduced to Alex Rider and Jack Starbrite and found out that Alex Rider's uncle ~~he~~ was dead. The Police said his uncle died in a car crash and that he was not wearing a Seat belt. Alex and Jack went to the funeral and there was a man holding a gun so they went home. All the stuff in Alex's office had gone. ~~In chapter two~~ In chapter ^{his uncle's} two Alex went to Stricker and soon on nearly got killed then he found himself in hospital after being shot in the Royal and General. When he woke up Mr Blunt and Mrs Jones were expecting to speak with him. Next he went to a Training camp and he was put in a with 20 year olds. 160 words.

- Alex's uncle died and there was a gun in the funeral.
- Alex went to Stricker and soon and nearly got swasted.
- He went to Royal and General and got shot.
- He woke up in hospital and was speaking with ~~Mr Blunt~~ Mr Blunt and Mrs Jones.
- He went ~~to a camp~~ with ~~4~~ 4 men. to a camp, 55 words.

Atodiad 6

Canolfan Addysg Athrawon De-Orllewin Cymru  The South West Wales Centre of Teacher Education			1B	
Cynllun Sesiwn – Cyfnod Allweddol 2				
Enw'r hyfforddai: Chloe Thomas			Cyfeirnod Sesiwn: Religious Education	
Targed(au) personol o ran SAC:				
Grŵp blwyddyn: 4		Nifer y dysgwyr: 28		ADY(ALN):
Oedolion ychwanegol: 0				
W.A.L.T: present slides with animation			Success Criteria: • Google Slides • Title • Sub-headings • Pictures • Animations • Key words • Features of a place of worship • Text boxes • Share work • Present	
Cysylltiadau â dysgu blaenorol:				
Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod, sgiliau): Addysg Grefyddol Ystod: Sut y caiff profiad crefyddol/ysbrydol ei ddatblygu a'i ddeall, e.e. <i>perthynas â Duw; ffordd o fyw, ymrwymiad, addoliad, gweddi, cerddoriaeth, dawn, myfyrdod ac ympryd</i> ; Sgîl: Defnyddio TGCH a dulliau eraill i gael gwybodaeth a throsglwyddo cysyniadau crefyddol.				
Llythrennedd(FfLIRh)			Rhifedd(FfLIRh)	
FfCD	Meddwl	ADCDF	YCC	
	Ysgogi sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth flaenorol. Adolygu deilliannau a meini prawf llwyddiant.			
Geirfa Allweddol(Cymraeg/Saesneg):				
• Church • Religion • Pulpit • Lectern • Church bell • Altar • The Font • Bible • Animations				
Amser	Gweithgareddau, trefnu a rheoli'r sesiwn		Cwestiynau allweddol / Asesu ar gyfer dysgu	
10 Minutes	Cyflwyniad		What does the term 'religion' mean?	

	• Recap on previous lesson – Each group to have a photo of a feature in a Church and pupils to discuss in their groups what they know about the feature; Report back. • SMARTBOARD Activity – Fill in the blanks; • Briefly recap on the main points; • Religion – The worship of Gods or God; Help find meaning in the world; • People believe that religions offer the answers to questions. • Christianity – People who follow Christianity are Christians; • They believe in Jesus Christ. • The Bible – Holy Book, Special book that includes stories about God and Jesus, history and wise sayings. • Discuss the meaning of religious symbols – Pupils to discuss in groups for 1 minute what they know about these symbols; • Cross – Reminds Christians that Jesus died for them by being hung on the cross; • Candles – Represents the light that Jesus brings to the world; • Water – Represents cleanliness. • Holy places – Discuss the term ‘shrine’ – Introduce the Church briefly. • Focus on the features of a Church – • Lectern – Stand that holds the Holy Bible; • Pulpit – Preacher stands; • The Font – Holds holy water; • Used to baptise babies; • The Organ – Christians sing praise to God; • Makes the music; • Stained Glass Windows – Tell a story from the Bible, Important people; • Church Bell – Rung during special occasions; • To tell people to come to Church; • The Altar – Bread and wine is placed during a communion. • Recap on Google Slides – ANIMATION • Demonstrate how to use Google Slides and insert animations; • Introduce ‘Text boxes’ – Demonstrate how to insert a text box; • Refer to the success criteria and W.A.L.T. • Pupils to collect a Chromebook.	What does it mean to be religious? What are the main features of a place of worship? Question the pupils throughout the PowerPoint on their understanding of the features of a place of worship.
	Prif weithgareddau	

40 Minutes	SHARE WITH ME - ANIMATIONS • Pupils to discuss the features of a church with their partners (2 Minutes). • Pupils to continue working on their PowerPoints; Must include text boxes during this lesson. • Animations – Each slide must include an animation; • Stop the pupils after 10 minutes to ensure all are on task and are aware of the success criteria. • Emphasize the importance of referring to the success criteria.
10 Minutes	Diwedd glo • Recap on learning – Pupils to share one feature of a church with the class; • SMARTBOARD Activity – Label the features of a Church.